Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Dafydd Elis-Thomas AC
Y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

27 Tachwedd 2018

Annwyl Dafydd

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r gwaith craffu a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor heddiw wedi cyhoeddi adroddiad yn datgan ei farn a'i ganfyddiadau.

Yn ystod eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 15 Tachwedd, pan fuom yn trafod y gyllideb ddrafft, gwnaethom drafod y mater o sicrhau mynediad cyfartal i chwaraeon yng Nghymru, a rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru yn y maes hwn.

Yn sgil hynny, roeddem yn siomedig gyda'r canfyddiadau a geir mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Chwaraeon Cymru ar 21 Tachwedd, sef **Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2018: Adroddiad Cyflwr y Genedl**. Mae'r adroddaid hwn yn dangos nad yw lefelau cyfranogiad ymhlith disgyblion yng Nghymru wedi cynyddu o'r lefelau a welwyd yn 2015. Yn ogystal, mae'n dangos bod gwahaniaethau hirsefydlog mewn lefelau cyfranogiad yn parhau i fodoli, a bod disgyblion benywaidd a disgyblion hŷn yn parhau i gymryd rhan yn llai aml mewn addysg gorfforol a chwaraeon. Yn anffodus, mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau cyfranogi rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r rhai mwyaf difreintiedig wedi cynyddu.

Rydym yn pryderu bod canfyddiadau Chwaraeon Cymru yn gwrthdaro rhywfaint â'r darlun mwy cadarnhaol a luniwyd gennych chi wrth roi tystiolaeth i'n Pwyllgor. Byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb i adroddiad Chwaraeon Cymru, yn ogystal â manylion am y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ran ei ganfyddiadau ynghylch cyfranogiad.

Cofion cynnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon